# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I'R CABINET**

13 Medi, 2016

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Pwnc:** | Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

**Y penderfyniad a geisir**

Argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn cymeradwyo'r "*Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru*" fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau gyda Llywodraethau Prydain a Chymru am gais "Cynllun Twf" i'r rhanbarth.

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol.

**1. CEFNDIR**

1.1. Fe welwch ynghlwm i'r adroddiad hwn ddogfen efo'r teitl "*Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru*". Mae'n cyflwyno Strategaeth, Blaenoriaethau a Rhaglen Waith o Brosiectau Strategol i gyflawni twf economaidd a chyflogaeth ar draws y rhanbarth.

1.2. Mae'r ddogfen "Gweledigaeth ar gyfer Twf" yn cynnig y fframwaith a'r cyd-destun strategol ar gyfer partneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraethau Prydain a Chymru, i weithio ar y cyd i gyfeirio buddsoddiad i Ogledd Cymru ac i ddwyn adnoddau at ei gilydd i ariannu prosiectau allweddol.

1.3. Mae hefyd yn cyflwyno uchelgais glir i Ogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth, a thwf busnesau. Os llwyddir i sicrhau'r buddsoddiad i weithredu'r rhaglen waith o brosiectau, bydd y rhanbarth yn profi twf economaidd gynaladwy a bydd gwerth economi Gogledd Cymru yn cynyddu o £12.8 biliwn yn 2015 i £20 biliwn erbyn 2035. Bydd cyfradd twf o'r math yn creu o leiaf 120,000 o swyddi ychwanegol.

1.4. Thema sy'n gyson yn rhedeg drwy'r ddogfen "Gweledigaeth ar gyfer Twf" yw gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, gydag ymrwymiad cryf gan y sector preifat ac ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru". Mae hyn yn adeiladu ar y cyd-gynllunio agos sydd wedi digwydd yn y rhanbarth dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

1.5. Mae ymgynghori eang wedi cymryd lle wrth ymgymryd â'r broses o baratoi'r "Weledigaeth ar gyfer Twf". Mae sefydliadau fel Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria, LEP Sir Gaer a Warrington, Byrddau'r Ardaloedd Menter, Mersey Dee Alliance, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Prydain a nifer fwy wedi bod ynghlwm a'r gwaith dros y misoedd diwethaf.

1.6. Mae'r cyfraniad mwyaf arwyddocaol wedi dod o gyfeiriad y sector preifat, yn enwedig drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru. Maent wedi bod yn rhagweithiol wrth gyfrannu ac wedi chwarae rôl allweddol wrth lunio a datblygu'r Weledigaeth a'r Strategaeth ar gyfer Twf. Yn ei gyfarfod ar y 4 Gorffennaf, 2016 fe gymeradwywyd y "Weledigaeth ar gyfer Twf" a'r Rhaglen Waith o Brosiectau gan y Cyngor Busnes.

1.7. Mae cyfraniad yr Awdurdodau Lleol hefyd wedi bod yn allweddol. Cyfarfu Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y chwe Awdurdod Lleol ar y 15 o Orffennaf, 2016 a phenderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw i gymeradwyo'r "Weledigaeth ar gyfer Twf" a'i gyflwyno i Lywodraeth Prydain a Chymru.

1.8. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Economi ac Isadeiledd Llywodraeth Cymru hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y trafodaethau. Mae ef wedi cynnig ei gefnogaeth anffurfiol i'r cysyniad o "Weledigaeth ar gyfer Twf" i Ogledd Cymru, sydd wedi'i integreiddio efo Gogledd Orllewin Lloegr a'i chysylltu efo economi Prydain yn eangach.

1.9. Fe gafwyd trafodaethau positif yn ogystal mewn cyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Is-ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru.

1.10. Cymeradwywyd y ddogfen yn swyddogol gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar y 1 Awst, 2016.

1.11. Mae cefnogaeth eang felly ar draws y sectorau gwahanol i'r "Weledigaeth ar gyfer Twf". Mae'r gefnogaeth a'r ymrwymiad yma yn rhoi sail gadarn i symud ymlaen fel partneriaeth i weithredu'r Strategaeth - a hynny gyda momentwm.

1.12. Gofynnwn yn awr am gymeradwyaeth ffurfiol y chwe Cabinet ar draws Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i'r Weledigaeth a'r Strategaeth, fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau am "Gynllun Twf" (Growth Deal).

1.13. Y bwriad yn dilyn hyn yw cynnal trafodaethau gyda Changhellor y Trysorlys, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau buddsoddi posib ar gyfer gweithredu'r rhaglen waith o brosiectau. Bwriedir cynnal trafodaethau yn ogystal o gwmpas "Cynllun Twf" ar gyfer Gogledd Cymru. Ystyrir Cynllun Twf fel un o'r prif gerbydau i sicrhau buddsoddiad i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r "Weledigaeth ar gyfer Twf" o'r cyfnod yma hyd 2035.

1.14. Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas yr adroddiad yma i'r Cabinet yw gofyn am gefnogaeth i'r Strategaeth amgaeedig a'r prosiectau strategol fydd yn ceisio sicrhau twf economaidd ar draws Gogledd Cymru. Dyma fydd sail ar gyfer cynnal trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Prydain a Chymru i sicrhau buddsoddiad i'r rhanbarth ac i ariannu'r prosiectau gwahanol. Bydd unrhyw ymrwymiad ariannol sy'n syrthio ar y Cyngor, neu unrhyw oblygiadau i gyfrifoldebau'r Cyngor yn sgil trefniadau llywodraethu neu gyfansoddiadol arfaethedig newydd, yn dod yn ôl gerbron y Cabinet ar gyfer penderfyniadau penodol wrth i'r cynllun ddatblygu.

## 2. ARGYMHELLION

2.1. Argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn cymeradwyo'r "*Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru*" fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau gyda Llywodraethau Prydain a Chymru am gais "Cynllun Twf" i'r rhanbarth.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae twf economaidd cynaliadwy i'r dyfodol yn allweddol ar gyfer dyfodol y sir a'i phobl ond mae cyflawni hynny yn golygu fod yn rhaid cydweithio'n ehangach er mwyn gallu creu'r amgylchedd priodol a chael mynediad at rhai o'r trosolion wnaiff greu hynny. Bu cryn waith a thrafod wrth ddwyn y ddogfen hon ynghyd. Y gobaith nawr yw bod hwn yn gosod y cyd-destun strategol a fydd yn galluogi Gwynedd fel rhan o gynllun ehangach i ddenu buddsoddiad i wireddu'r cynlluniau y mae'r ddogfen yn cyfeirio atynt. Yn amlwg, bydd yn rhaid asesu unrhyw ymrwymiadau unigol fesul prosiect fel y maent yn codi."

**Y Swyddog Monitro:**

"Yn amlwg mae'r adroddiad yma yn dod gerbron y Cabinet fel cam cychwynnol ffurfiol ar gyfer ceisio sefydlu prosiect. Yn anorfod mae elfen o ymrwymiad yn ynghlwm a phenderfyniad o'r fath. Fe nodir fodd bynnag mai cam cychwynnol sydd yma i geisio sicrhau cytundeb a chefnogaeth i'r weledigaeth lefelau cenedlaethol. Mae natur a maint posib y prosiect yn golygu y bydd angen gwaith a phenderfyniadau pellach a manwl ar faterion megis llywodraethu ac ymrwymiadau penodol. Yn anorfod bydd golygai hyn benderfyniadau gan y cynghorau unigol wrth gytuno i sefydlu a dod a phrosiect/au i fodolaeth. Mae'n hanfodol bwysig felly fod datblygiad y prosiect yn rhoi blaenoriaeth i gytuno a sefydlu fframwaith rhanbarthol addas a phriodol ar gyfer llywodraethu."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Rwy'n cefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet gymeradwyo'r "weledigaeth ar gyfer twf", ac i'r bartneriaeth rhanbarthol symud ymlaen i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru. Byddai cyfleoedd gwerthfawr i ranbarth Gogledd Cymru gyda "Chynllun Twf", ynghyd â risgiau ariannol posibl i'r awdurdodau lleol perthnasol. Felly, bwriadaf gefnogi a chynghori'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth i'r agenda arloesol yma symud ymlaen, gyda golwg ar uchafu'r buddion i bobl Gwynedd."

## Atodiadau

**Atodiad 1** Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru

ITJ/ls
02.09.16